disability wales
anabledd cymru

Buddion...
Twitter

Twitter yn blatfform am ddim i rannu newyddion a sgwrsio mewn dim mwy na 140 llythyren. Erbyn hyn mae llawer yn ystyried Twitter fel ffynhonnell newyddion yn hytrach na rhwydwaith cymdeithasol, gan ei ddefnyddio i rwydweithio a thrafod ar sail eu diddordebau.

1. Cysylltu â ffrindiau

Twitter yn caniatáu anfon negeseuon 140 llythyren. Efallai bydd pobl sy'n defnyddio Easy Read am ddefnyddio Twitter (Trydar) oherwydd mae'r negeseuon yn gryno a syml.

2. Diddordebau

Dilyn unryw un o ddiddordeb i chi, ffrindiau, sêr, cyrff, rhaglenni teledu, timau chwaraeon etc. Mae trydar yn hwyluso derbyn newyddion/gwybodaeth mewn amser real.

3. Cydraddoldeb

Nid yw trydar yn galw am sgwrsio wyneb yn wyneb, byddwch yn ymuno â sgyrsiau heb farnu neu ragfarnu.

4. Rhannu profiadau

Gallwch rwydweithio a chysylltu â phobl anabl, gan rannu profiadau a gwybodaeth. Gall ddatblygu'n rhwydwaith cymorth eang a helpu i leihau teimladau o unigedd.

5. Ymgyrchu

Heb rwydweithiau cymdeithasol, ni fyddai'r mwyafrif o ymgyrchoedd anabledd yn digwydd. Mae hyd yn oed yn helpu i drefnu protestiadau gan bobl anabl wrth hwyluso anfon gwybodaeth yn gyflym.

6. Dilyn digwyddiadau

Gallai mynychu digwyddiad/cynhadledd/protest eich hun fod yn anodd oherwydd salwch ac ati. Mae trydar yn caniatáu dilyn y newyddion diweddaraf, nid mor dda â chyfarfod pobl ond ffordd wych o gadw i fyny â datblygiadau.

7. Hashtags

Gallwch gadw i fyny â digwyddiadau wrth ddilyn hashtag, label sy'n helpu pobl i gysylltu negeseuon â phwnc penodol. Er enghraifft, #accessibility, #hawliau, #hygyrchedd. Wrth glicio ar hashtag, bydd Twitter yn dangos yr holl bobl eraill sy'n postio ar y pwnc hwnnw. Wrth gwrs, gallwch hefyd ddefnyddio blwch chwilio i edrych am eiriau penodol.